# Uned 8: Gofal Gwarchodol

## Canllawiau cyflwyno

Yn yr uned hon, bydd eich dysgwyr yn dod i ddeall gweithdrefnau mewnol yr amgylchedd gwarchodol.

Byddant yn archwilio'r gyfraith sy'n llywodraethu a'r strategaethau a ddefnyddir gan y gwasanaeth carcharau i sicrhau eu bod yn cadw at eu pwrpas o 'gadw'r rhai a gafodd ddedfryd o garchar yn y ddalfa, a'u helpu i fyw bywydau defnyddiol sy'n cadw o fewn terfynau'r gyfraith, a hynny tra'u bod yn y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau'.

Mae hyn yn cynnwys edrych ar y mesurau diogelwch a ddefnyddir yn y carchar, gyda'r bwriad o 'gadw'r rhai a gafodd ddedfryd o garchar yn y ddalfa', yn ogystal â sut cynhelir rheolaeth, gan gynnwys technegau chwilio ar gyfer unigolion a chelloedd er mwyn sicrhau bod y staff a'r carcharorion yn ddiogel. Yna byddwch chi'n edrych ar y gefnogaeth sydd ar gael i droseddwyr yn y ddalfa a'r tu allan 'i'w helpu i fyw bywydau sy'n cadw o fewn terfynau'r gyfraith, a hynny tra'u bod yn y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau'.

Bydd eich dysgwyr yn archwilio effeithiolrwydd a chyfiawnhad strategaethau a thechnegau sy'n statudol ac yn anstatudol, ac wrth wneud hynny, dylent ddysgu am y pwysau ar y gyfundrefn gosbi a gwerth y sefydliadau gwirfoddol sy'n cefnogi gwaith y rhai statudol.

Dylent sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyfreithiol ac Offerynnau Statudol newydd ar ffurf Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carcharau (PSIs) (a gyflwynwyd ar ffurf Gorchmynion y Gwasanaeth Carcharau (PSOs) cyn 2010), sy'n diweddaru ac yn newid Rheolau Carcharau 1999, yn ogystal â materion cyfoes a storïau yn y newyddion am y carcharau, datblygiad yr ystâd, a sut mae gwahanol fathau o droseddwyr yn cael eu trin.

### Mynd i'r afael â'r uned

Mae angen i'ch dysgwyr wybod sut mae Gwasanaeth Carcharau a Phrawf Ei Mawrhydi yn mynd ati i gyflawni'r pwrpas a nodwyd uchod a'r rheolau, y prosesau a'r protocolau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Mae angen iddynt wybod sut mae cael hyd i'r rheolau hynny a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso'n ymarferol, yn ogystal â deall eu rhesymeg a'u heffeithiolrwydd.

Er bod hyn yn golygu bod rhaid i ddysgwyr weithio gyda Chyfarwyddiadau a Gorchmynion cyfredol y Gwasanaeth Carcharau, ac felly fedru cael hyd iddynt ar y safleoedd gov.uk priodol, mae cyfle hefyd i edrych ar y rhain mewn cyd-destun hanesyddol, y gellid ei fwynhau trwy ymweld ag amgueddfeydd megis yr Amgueddfa Gyfiawnder Genedlaethol, Amgueddfa Carchar Dartmoor, Amgueddfa'r Clink yn Llundain, ac Amgueddfa'r Heddlu a'r Carchar yn Ripon. Ymhellach, mae llawer o wasanaethau heddlu wedi symleiddio'u trefniadau gwarchodol eu hunain, ac o ganlyniad mae llawer o ystafelloedd gwarchodol yr heddlu ar draws y wlad wedi cael eu datgomisiynu. Yn aml iawn bydd y rhain ar gael i chi ymweld â nhw, os bydd eich canolfan yn cysylltu â nhw.

Mae rhaglenni dogfen niferus ynghylch bywyd swyddog carchar neu fywyd yn y carchar, a bydd y rhain yn darparu cipolwg gwerthfawr ar elfennau ymarferol bywyd yn y ddalfa.

Mae Nod dysgu A yn ymwneud â mesurau diogelwch ymarferol. Mae angen i'r dysgwyr fedru disgrifio amrywiaeth o fesurau diogelwch, dadansoddi eu priodoldeb, y gallech chi ei wneud mewn sefyllfaoedd penodol, yn ogystal â gwerthuso'u heffeithiolrwydd. Gellid cyflwyno hyn yn effeithiol yn weledol, naill ai trwy ymweld â charchar/ystafell warchodol, trwy wahodd siaradwr gwadd o'r proffesiwn, neu trwy wylio'r rhaglenni dogfen niferus sydd ar gael.

Mae Nod dysgu B yn ymwneud â mesurau rheoli, ac felly eto, bydd gofyn bod gan y dysgwyr yr wybodaeth ddiweddaraf am y rheolau ynghylch dulliau chwilio a mesurau rheoli. Bydd angen eu bod yn cael mynediad i Reolau Carcharau 1999 a’r Cyfarwyddiadau Gwasanaeth Carcharau (PSIs) a’r Gorchmynion Gwasanaeth Carcharau (PSOs) diweddaraf, ac yn gallu disgrifio’r mesurau a geir ynddynt.

Mae Nod dysgu C yn ymwneud â phrosesau ac elfennau ymarferol derbyn a rhyddhau unigolion o amgylchedd gwarchodol. Mae’r wefan www.doingtime.co.uk yn ganllaw i droseddwyr sy’n mynd i’r carchar am y tro cyntaf.

Bydd angen i’r dysgwyr archwilio pwrpas chwiliadau a’r broses o’u cyflawni, yn ogystal â’r dulliau gweithredu gwahanol a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o droseddwyr – bydd angen iddyn nhw ystyried Rheol 41 o Reolau Carcharau 1999 ac unrhyw newidiadau iddo.

Ar ben hyn, bydd angen i’ch dysgwyr ymchwilio i’r mesurau rheoli a ddefnyddir a sut cyfiawnheir y rhain. Dylid rhoi sylw i Reolau Carcharau 1999 (fel y’u newidiwyd) o Reol 40–61. Mae modd archwilio trefn lle defnyddir gwobrau yn hytrach na sancsiynau trwy arbrawf 2018 yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) Feltham, wedi iddo dderbyn arolygiad damniol yn 2017.

I gyrchu hyn, ewch i wefan y BBC: https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-london-44044667

Mae Nod dysgu D yn ymwneud â sut mae troseddwyr yn cael eu rheoli a’u cefnogi yn y ddalfa ac adeg eu rhyddhau. Rhaid i’ch dysgwyr archwilio’r broses ffurfiol o reoli troseddwyr, a dilyn hynny ag asesiad o effeithiolrwydd rhai o’r Rhaglenni Ymddygiad Troseddwyr cyfredol.

Mae’r nod dysgu hwn hefyd yn ymdrin â sut gall meithrin cydberthynas gadarnhaol wneud gwahaniaeth i ymddygiad troseddol yn y dyfodol, a hynny yn ystod y cyfnod yn y ddalfa ac ar ôl rhyddhau. Mae modd gweld y perthnasoedd hyn yn rhai o’r rhaglenni dogfen niferus sydd ar gael, gan gynnwys y rhai a restrwyd yn yr adran adnoddau ar ddiwedd y ddogfen hon. Ymhellach, bydd ymchwilio i gynlluniau fel ‘*Story Book Dads*’ (ewch i wefan ‘*Story Book Dads*’: https://www.storybookdads.org.uk/) yn caniatáu i ddysgwyr werthfawrogi a gwerthuso’r mentrau newydd sy’n ceisio cynnal perthnasoedd a’u gwerth cysylltiedig o ran gwella ymddygiad, llythrennedd a chyfraddau aildroseddu.

I baratoi ar gyfer ailsefydlu, dylai fod gan eich dysgwyr drosolwg o waith a chyfrifoldebau Gwasanaeth Carcharau Ei Mawrhydi (HMPS) wrth baratoi troseddwyr i’w rhyddhau, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a’r cwmnïau adsefydlu cymunedol, yn ogystal â’r cyrff elusennol niferus sy’n cefnogi’r gwaith hwn.

## Model asesu

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio'r mesurau diogelwch a ddefnyddir yn yr amgylchedd gwarchodol | **A1** Diogelwch corfforol<br>**A2** Diogelwch deinamig/ perthynol<br>**A3** Diogelwch gweithdrefnol | Canllaw i gyflogeion ar y mesurau diogelwch a chynnal rheolaeth mewn amgylchedd gwarchodol, ar ffurf taflen fanwl. |
| **B** Ymchwilio i sut mae rheolaeth yn cael ei chynnal yn yr amgylchedd gwarchodol | **B1** Ffactorau a allai ddylanwadu ar ystod o ddulliau chwilio<br>**B2** Mesurau rheoli | |
| **C** Archwilio'r gweithdrefnau derbyn a rhyddhau ar gyfer unigolion a'u heiddo | **C1** Derbyn unigolion<br>**C2** Rhyddhau unigolion | Cyflwyniad gyda nodiadau ategol ar dderbyn a rhyddhau unigolion a rheoli troseddwyr, ynghyd â'r mesurau sydd ar waith i gefnogi adsefydlu ac ailsefydlu adeg eu rhyddhau. |
| **D** Deall sut mae troseddwyr yn cael eu rheoli a'u cefnogi yn y ddalfa ac adeg eu rhyddhau | **D1** Perthnasoedd<br>**D2** Amgylchedd<br>**D3** Delio gyda rheoli troseddwyr<br>**D4** Paratoi ar gyfer ailsefydlu | |

## Canllawiau asesu

Asesir yr uned hon yn fewnol trwy grwpio'r nodau dysgu i greu dau aseiniad. Rhaid i'r dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth unigol sydd wedi'i dilysu, yn hytrach nag atgynhyrchu'n unig yr wybodaeth sydd ar gael ar y gwefannau niferus a fydd yn ffynonellau gwybodaeth ardderchog.

Rhai o'r mathau o dystiolaeth mwyaf addas ar gyfer yr uned hon yw adroddiadau ysgrifenedig, canllawiau a chyflwyniadau. Fodd bynnag, mae modd ymdrin â'r rhain o wahanol safbwyntiau.

Mae Nod dysgu A yn galw am archwilio'r mesurau diogelwch a ddefnyddir mewn amgylcheddau gwarchodol, a gallai hyn fod o ddiddordeb yn bennaf i gyflogai newydd, felly byddai canllaw i gyflogeion yn briodol dros ben.

Mae Nod dysgu B yn galw am ymchwilio i fesurau rheoli, gan gynnwys chwiliadau. Er y gellid darparu tystiolaeth o hyn eto mewn canllaw i staff, gallai fod yn faes sy'n destun pryder arbennig i deuluoedd pobl sy'n mynd i'r carchar am y tro cyntaf, felly dull arall posibl o ymdrin â hyn fyddai darparu canllaw i deuluoedd pryderus ynghylch beth allai ddigwydd i'w hanwyliaid.

Mae Nod dysgu C yn archwilio'r elfennau ymarferol wrth gyrraedd y carchar ac ymadael. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol i rywun oedd yn mynd i'r carchar am y tro cyntaf, felly byddai canllaw ynghylch yr hyn y gallai carcharor dibrofiad ei ddisgwyl yn ddull gweithredu priodol. Ar gyfer y nod dysgu hwn (a Nod dysgu D), mae modd rhoi cyflwyniad yn ogystal â darparu nodiadau ategol ynghylch derbyn a rhyddhau unigolion a'r mesurau sydd ar waith i'w cefnogi i adsefydlu.

Gellid ymdrin â deall sut mae troseddwyr yn cael eu rheoli a'u cefnogi ar gyfer Nod dysgu D o safbwynt gwirfoddolwr newydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carcharau (*Prison Reform Trust*). Bydd y dull gweithredu hwn yn rhoi cipolwg ar yr asiantaethau a'r cyrff statudol a gwirfoddol sy'n rhanddeiliaid allweddol wrth reoli troseddwyr, yn ogystal â darparu cyfle i archwilio'r systemau a'r fenter a luniwyd i reoli troseddwyr a'u hatal rhag troseddu eto.

## Cychwyn arni

**Yma cewch fan cychwyn ar gyfer un dull o gyflwyno'r uned, wedi'i seilio ar y dull asesu a argymhellir yn y fanyleb.**

| **Uned 8: Gofal Gwarchodol** |
|---|
| **Cyflwyniad**<br>Bydd y dysgwyr yn astudio'r mesurau diogelwch a ddefnyddir mewn amgylchedd gwarchodol, sut mae rheolaeth yn cael ei chynnal, a sut mae troseddwyr yn cael eu cefnogi yn y ddalfa ac adeg eu rhyddhau. |
| **Nod dysgu A: Archwilio'r mesurau diogelwch a ddefnyddir yn yr amgylchedd gwarchodol** |
| Yn achos Nod dysgu A, mae'r cynnwys yn canolbwyntio ar y tair agwedd ar ddiogelwch: diogelwch corfforol, diogelwch deinamig/perthynol a diogelwch gweithdrefnol. O ran y cynnwys hwn, gallai fod rhywfaint o orgyffwrdd â Nod dysgu D, gyda System Gwybodaeth Rheoli Troseddwyr Genedlaethol y Carcharau (p-NOMIS) a'r System Gwybodaeth am Garcharorion (IIS), yn ogystal â'r ffaith bod pwysigrwydd perthnasoedd yn berthnasol i'r ddau nod (A2 a D3), er bod hynny o bersbectif gwahanol.<br>Cyflwyniad posibl a awgrymir ar gyfer yr holl fathau hyn o ddiogelwch fyddai:<br>• Nodi'r gwahanol fathau o ddiogelwch – o bosibl yn deillio o drafodaeth grŵp.<br>• Gellid rhannu'r grwpiau addysgu yn 3 thîm, gyda phob un yn derbyn cyfrifoldeb am un o'r 3 math o ddiogelwch yn A1, A2 ac A3. Gallent ymchwilio a thrafod eu canfyddiadau mewn cyflwyniad i weddill y grŵp. Gellid eu cyfeirio at wefan Rheolaeth Carcharau (www.prisoncontrol.weebly.com) i gael rhagor o wybodaeth i gefnogi eu gwaith ymchwil.<br>• Mewnbwn yn nodi bod nifer o reolau, rheoliadau a chanllawiau ar gyfer rhedeg carcharau. Amlinellir y rhain yng Nghyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carcharau (PSIs).<br>• Gallai'r dysgwyr wylio un o'r rhaglenni dogfen niferus sydd ar gael (gweler yr adnoddau ar ddiwedd y ddogfen hon) a derbyn cyfres o gwestiynau sy'n dilyn cynnwys y fanyleb ac yn eu cyfeirio at y pethau mae angen iddyn nhw chwilio amdanynt – bydd hyn yn hwyluso'u tasg o nodi, disgrifio, cyfiawnhau a gwerthuso'r mesurau y gallant eu gweld.<br>• Y ffordd orau o archwilio diogelwch gweithdrefnol yw yng nghyd-destun gwahanol fathau o garcharor a dosbarthiad amgylcheddau gwarchodol. Bydd tasg ymchwil gyda chwestiynau ynghylch 'y math o garcharor', 'y math o drosedd', 'hanes y carcharor' yn galluogi'r dysgwyr i ganfod y gwahaniaethau rhwng y categorïau. Y ffordd orau o wneud hyn yw trwy gyfeirio at wefan 'In Brief'. Ewch i https://www.inbrief.co.uk/prison-law/ a defnyddio'r ddewislen i gael hyd i '*Categories of male prisoners*' a '*Categories of female prisoners*'.<br>• Gellid parhau'r gweithgaredd hwn mewn perthynas â phobl ifanc. Mae Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei goruchwylio gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:<br>  ○ Yn achos Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOIs), sydd ar gyfer troseddwyr rhwng 18 ac 21 oed, dylid cyfeirio'r dysgwyr at wefan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carcharau www.prisonreformtrust.org.uk.<br>  ○ Mae Canolfannau Hyfforddi Diogel ar gyfer troseddwyr o dan 18 oed, a dylid cyfeirio'r dysgwyr at Ganolfan Gyfreithiol Cyfiawnder Ieuenctid (www.yjlc.uk) i gael gwybodaeth am hyfforddiant diogel. |

- Gan fod eich dysgwyr yn debygol o fod o dan 18 oed, gallai'r trefniadau mewn canolfan hyfforddi ddiogel fod o ddiddordeb iddynt – mae Rheolau Canolfannau Hyfforddi Diogel 1988 i'w gweld ar wefan deddfwriaeth y Deyrnas Unedig: https://www.legislation.gov.uk/uksi/1998/472/contents/made

**Nod dysgu B: Ymchwilio i sut mae rheolaeth yn cael ei chynnal yn yr amgylchedd gwarchodol**

Yn achos Nod dysgu B, mae'r cynnwys yn ymwneud â mesurau rheoli, ac felly bydd gofyn bod gan y dysgwyr yr wybodaeth ddiweddaraf am y rheolau ynghylch dulliau chwilio a mesurau rheoli.

Dyma gyflwyniad posibl ar gyfer cynnal rheolaeth:

- Bydd angen iddynt gael mynediad i'r PSIs a'r PSOs diweddaraf, a gallu disgrifio'r mesurau rheoli allweddol sydd ynddynt; mae rhestr o'r rhain i'w gweld yn www.gov.uk/prison-service-orders-psos
- Gellid cyflwyno'r Cynllun Cymhellion a Breintiau a Enillwyd trwy gynhyrchu gweithgaredd byr sy'n gofyn bod dysgwyr yn paru'r lefelau â'r meini prawf priodol, o bosib gan ddefnyddio llinell amser i ddangos sut gellid defnyddio hyn – bydd gwefan '*doing time*' www.doingtime.co.uk yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer hyn.
- Mae'r *Howard League* wedi cyhoeddi adroddiad (byr!) defnyddiol iawn o'r enw *Punishment in Prison*, y gellid ei roi i'r dysgwyr fel ymarferiad darllen – bydd hyn yn eu helpu i roi'r rheolau cosbi yn eu cyd-destun a'u cyfiawnhau a'u dadansoddi o ganlyniad.
- Dylid trafod rheolaeth ac ataliaeth gan gyfeirio at PSO 1600 a Llawlyfr Hyfforddi '*Use of Force*' y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd ar gael ar wefan '*Statewatch*': https://www.statewatch.org/media/documents/news/2012/jan/uk-prisons-use-offorce-manual.pdf. Dylid amlinellu'r fframwaith cyfreithiol (a geir yn y PSO) – o bosib mewn cyflwyniad gan y tiwtor. Yna gallai'r dysgwyr gymryd rhan mewn ymarferiad paru, yn cyfuno'r angen am reolaeth ac ataliaeth â'r dechneg berthnasol.
- Gwyliwch y weithdrefn hon gan ddefnyddio'r fideos '*Prison Control*'. Ewch i wefan Prison Control: www.prisoncontrol.weebly.com.
- I ddadansoddi a chyfiawnhau'r mesurau hyn, gallai fod yn ddefnyddiol darparu nifer o sefyllfaoedd ar gyfer eich dysgwyr, er mwyn iddyn nhw gymhwyso'u dealltwriaeth o fesurau rheoli, er enghraifft:
  - Amheuir bod tad carcharor agored i niwed yn darparu canabis ar ei chyfer.
  - Credir mai cell troseddwr ifanc yw canolbwynt y delio mewn cyffuriau yn yr YOI.
  - Asesir carcharor 'noson gyntaf' fel un a allai hunan-niweidio/ladd ei hun.
  - Amheuir bod swyddog carchar yn cyflenwi ffonau symudol i garcharorion.
  - Mae carcharor yn difrodi ei gell ac yn bygwth trais yn erbyn swyddogion.
  - Mae adain wedi cael ei meddiannu ac mae grŵp o garcharorion sy'n protestio am fwyd y carchar wedi codi baricêd.
  - Mae troseddwr ifanc wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei rhaglen addysg.


Pearson BTEC Cenedlaethol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol – Canllaw Cyflwyno – Argraffiad 1 – Mawrth 2022 © Pearson Education Limited 2022

**Nod dysgu C: Archwilio'r gweithdrefnau derbyn a rhyddhau ar gyfer unigolion a'u heiddo**

Yn achos Nod dysgu C, mae'r cynnwys yn ymwneud ag elfennau ymarferol derbyn a rhyddhau unigolion o amgylchedd gwarchodol.

- Man cychwyn diddorol o bosib fyddai trafodaeth grŵp neu chwarae rôl yn nodi pa bryderon fyddai gan garcharor di-brofiad am y broses y bydd ef/hi yn ei hwynebu wrth gyrraedd y carchar. Ar ôl nodi'r rhain, gellid cynnal ymarferiad tebyg ynghylch rhyddhau.
- Ar ôl nodi'r materion allweddol, bydd ymchwilio i Reolau Carcharau 1999 a'r PSOs a'r PSIs priodol yn rhoi rhywfaint o fframwaith i'r dull o gyflawni'r prosesau hyn.
- Dylai tiwtoriaid weithio trwy lifsiart o'r broses gan ddefnyddio'r deunydd yn y cynnwys, gyda'r dysgwyr yn paru'r PSO/PSIs a'r protocolau priodol. Bydd paratoi hyn ar ffurf llinell amser i'r carcharor, adeg derbyn a rhyddhau, yn rhoi'r deunydd hwn yn ei gyd-destun.
- Mae'r wefan www.doingtime.co.uk yn cynnwys llawer o gyngor syml ynghylch y prosesau a'r gweithdrefnau a'r ffordd orau o ddelio â nhw. Gallai hyn fod yn adnodd defnyddiol i'ch dysgwyr wrth iddyn nhw fynd i'r afael â'r nod dysgu hwn, a gallai eu galluogi i roi persbectif amgen os dewisant gwblhau cyflwyniad sy'n archwilio'r gweithdrefnau hyn:
  - Ewch i wefan www.doingtime.co.uk a chwilio am 'how prisons work/the first few weeks in custody/arrival at prison'.

**Nod dysgu D: Deall sut mae troseddwyr yn cael eu rheoli a'u cefnogi yn y ddalfa ac adeg eu rhyddhau**

Yn achos Nod dysgu D, mae'r cynnwys yn ymdrin â'r ffyrdd o reoli a chefnogi troseddwyr yn y ddalfa ac adeg eu rhyddhau. Gellid ymdrin â hyn o bersbectif paratoi gwirfoddolwyr i weithio yn yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carcharau (*Prison Reform Trust*).

- Gallai hyn gychwyn gyda throsolwg o'r tri phryder allweddol ynghylch carcharu a rhyddhau: perthnasoedd, amgylchedd a rheoli troseddwyr.
- Ar gyfer topig rheoli troseddwyr, gallech chi ofyn i'ch dysgwyr ymchwilio i System Gwybodaeth Rheoli Troseddwyr Genedlaethol y Carcharau (p-NOMIS) a'r System Gwybodaeth am Garcharorion (IIS).
- Gellid dilyn hyn ag asesiad o effeithiolrwydd rhai o'r Rhaglenni Ymddygiad Troseddwyr cyfredol, sydd i'w gweld ar wefan Focus Prisoner Education (fpe.org.uk). Chwiliwch am raglenni ymddygiad i droseddwyr.
- Gan fod topig yr amgylchedd yn arbennig o eang a bod y gefnogaeth i garcharorion yn cael ei theilwra yn ôl eu hanghenion, mae'n bosib mai'r dull gorau o ymdrin â hyn fyddai cyfres o astudiaethau achos bychain, yna gallai'r dysgwyr gynnal 'cynadleddau achos' ar gyfer pob un, a theilwra pecyn perthnasol i'w hanghenion, er enghraifft:
  - Troseddwr beichiog
  - Rhywun sydd wedi troseddu am y tro cyntaf, y mae Saesneg yn ail iaith iddynt
  - Troseddwr ifanc sy'n methu darllen
  - Troseddwr trawsrywiol
  - Troseddwr sy'n hunan-niweidio.
- Ar gyfer topig perthnasoedd, gellir archwilio perthnasoedd cadarnhaol mewn rhai o'r rhaglenni dogfen niferus sydd ar gael, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u rhestru yn yr adran adnoddau ar ddiwedd y ddogfen hon. Gall y dysgwyr wylio'r rhain i ddadansoddi effaith perthnasoedd cadarnhaol gyda'r staff.
- Bydd ymchwilio i gynlluniau megis '*Story Book Dads*' yn fodd i'r dysgwyr werthfawrogi a gwerthuso'r mentrau newydd sy'n ceisio cynnal perthnasoedd a'u gwerth cysylltiedig o ran gwella ymddygiad, llythrennedd a gostwng cyfraddau aildroseddu.

- Dylai eich dysgwyr ymchwilio i waith a chyfrifoldebau Gwasanaeth Carcharau Ei Mawrhydi (HMPS) wrth baratoi troseddwyr i'w rhyddhau, yn ogystal â'r Gwasanaeth Prawf a'r 21 o gwmnïau adsefydlu cymunedol.
- Ar ben hynny, mae angen iddyn nhw gynnwys y sefydliadau anstatudol sy'n darparu cefnogaeth i bobl sy'n gadael y carchar, gan gynnwys:
  - Nacro (y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr yn flaenorol)
  - Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carcharau
  - The Hardman Directory
  - Shelter
  - Unlock
  - Prince's Trust '*Leaving Prison Mentoring*'

O ran aseiniadau, caiff Nodau dysgu A a B eu hasesu ar y cyd, a hefyd C a D. Gan ei fod yn debygol y bydd A a B ar ffurf canllaw i gyflogeion, gallai fod yn ddefnyddiol defnyddio persbectif amgen ar gyfer C a D, a chynhyrchu gwybodaeth a luniwyd i gefnogi gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Carcharau a chydag ef, troseddwyr a'u teuluoedd. Byddai'n fwyaf effeithiol asesu'r uned hon ar ôl yr unedau cysylltiedig canlynol: *Uned 3: Ymddygiad a Disgyblaeth yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol* ac *Uned 15: Pwerau'r Heddlu a'r Gyfraith*.


 © Pearson Education Limited 2022

### Manylion y cysylltiadau ag unedau a chymwysterau BTEC eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 2: Ymddygiad a Disgyblaeth yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol
- Uned 14: Egwyddorion Rheoli Bygythiadau Diogelwch
- Uned 15: Pwerau'r Heddlu a'r Gyfraith
- Uned 18: Gweithdrefnau ac Ymarfer Ymchwiliadau Troseddol.

## Adnoddau

Yn ogystal â'r adnoddau a restrir isod, mae cyhoeddwyr yn debygol o gynhyrchu gwerslyfrau a gymeradwywyd gan Pearson sy'n cefnogi'r uned hon o'r BTEC Cenedlaethol mewn Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol. Edrychwch ar wefan Pearson: http://qualifications.pearson.com/endorsed-resources i gael rhagor o wybodaeth wrth i deitlau gael eu cymeradwyo.

#### Llyfrau

*The Prisons Handbook 2021* ISBN 9781916082441

'Mae *The Prisons Handbook* yn gyfeiriadur gwych ar gyfer unrhyw un sydd am ddysgu am system y carcharau; mae Llywodraethwyr, staff, carcharorion, teuluoedd a gweision sifil fel ei gilydd wedi dod i weld bod hwn yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth.' Y Gwir Anrh. David Gauke, AS. Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Cyfiawnder.

#### Cyfnodolion

*Prison Service Journal* (HMPS) – https://www.crimeandjustice.org.uk/publications/psj

Cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid yw hwn, a gyhoeddir gan Wasanaeth Carcharau EM yng Nghymru a Lloegr. Ei ddiben yw hybu trafodaeth ar faterion sy'n ymwneud â gwaith y Gwasanaeth Carcharau, y system cyfiawnder troseddol ehangach a meysydd cysylltiedig. Ei nod yw cyflwyno gwybodaeth ddibynadwy ac amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch y materion hyn.

#### Fideos

Ewch i YouTube a chwilio am '*Inside HM Prison In UK*' i weld rhaglen ddogfen lawn ar fywyd mewn carchar.

Ewch i YouTube a chwilio am '*Life in Wandsworth prison*' i weld rhaglen ddogfen gan y BBC ar fywyd y tu mewn i garchar Wandsworth.

#### Gwefannau

Ewch i Welcome to GOV.UK (www.gov.uk) a chwilio am '*Prison Life*' i weld deunydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar fywyd yn y carchar a chanllawiau byr i garcharorion a'u teuluoedd ar y broses a'r gweithdrefnau.

Ewch i Welcome to GOV.UK (www.gov.uk) a chwilio am '*offenders*' i gael arweiniad ar y bobl sy'n gweithio gyda throseddwyr yn y carchar ac ar brofiannaeth.

Ewch i wefan www.prisonreformtrust.co.uk yn y Deyrnas Unedig. Elusen annibynnol yn y Deyrnas Unedig yw hon, sy'n gweithio i greu system gosbi sy'n gyfiawn, yn wâr ac yn effeithiol.

Ewch i Legislation.gov.uk i weld yr holl reolau ar gyfer carcharau (PSIs a PSOs). Mae'r wefan hon yn cynnwys yr holl Offerynnau Statudol – rheolau cyfreithiol sy'n ymwneud â rheoli carcharau a charcharorion categorïau gwahanol.

Ewch i wefan Gwasanaeth Carcharau EM https://www.gov.uk/government/organisations/hm-prison-service a gwefan Gwasanaeth Carcharau a Phrawf EM https://www.gov.uk/government/organisations/her-majestys-prison-and-probation-service i weld newyddion, datblygiadau ac ystadegau sy'n ymwneud â gofal gwarchodol a phrofiannaeth.

Ewch i www.clinks.org.uk. Grŵp trosfwaol yw CLINKS ar gyfer yr holl sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda charcharorion a chyn-droseddwyr.

Ewch i www.doingtime.co.uk. Gwefan wirfoddol yw hon sy'n ceisio cefnogi carcharorion dibrofiad a'u teuluoedd. Mae'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth am brosesau a gweithdrefnau.


Pearson BTEC Cenedlaethol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol – Canllaw Cyflwyno – Argraffiad 1 – Mawrth 2022 © Pearson Education Limited 2022